# EIN COD

BBC

# GWNEUD Y PETH IAWN

Rydych chi'n rhan o sefydliad unigryw sy'n cyrraedd miliynau o bobl ym mhedwar ban byd bob dydd. Er mwyn bod ar ein gorau gyda'n cynulleidfaoedd, mae angen i ni fod ar ein gorau gyda'n gilydd.

Dyna pam mae gennym Ein Cod. Mae'n egluro'r safonau gorfodol y mae'n rhaid i bob un ohonom weithio'n unol â nhw ar draws y BBC.

Pan fydd sefydliad yn rhan mor annatod o fywyd dyddiol â'n sefydliad ni, mae gan bob un ohonom ni gyfrifoldeb i wneud y peth iawn. Mae cyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoleiddiol yn rhan ddigyfnewid a hanfodol o hynny, ynghyd â chreu'r amgylchedd gwaith tecaf lle rydyn ni'n croesawu, yn parchu ac yn clywed llais pawb.

Mae bod yn sefydliad dibynadwy yn hanfodol i'r genhadaeth – mae'n sylfaen i'n perthynas â chynulleidfaoedd. Dyna pam mae angen i chi ysgwyddo cyfrifoldeb personol dros wneud yn siŵr eich bod chi a'ch tîm yn deall y Cod Ymddygiad ac yn dilyn y safonau hyn yn gyson, yn ddi-ffael.

Rydyn ni eisiau i'r safonau yma yn Ein Cod roi'r hyder i chi ofyn unrhyw gwestiynau os nad ydych chi'n siŵr am rywbeth, ac i godi eich llais os byddwch chi'n gweld rhywbeth nad yw'n cyrraedd y safonau hyn. Pan fyddwch chi'n gwneud hynny, byddwn ni'n gwrando; byddwn yn siarad yn agored a byddwn yn gweithredu.

**Diolch.**
**Pwyllgor Gweithredol y BBC.**



# EIN GWERTHOEDD

**Mae ein chwe Gwerth yn siapio ein diwylliant ac yn diffinio sut rydyn ni'n gweithio. Yn bwysig, maen nhw'n ein hatgoffa o'r ymrwymiadau rydyn ni'n eu gwneud i'n cynulleidfaoedd, ac i'n gilydd, am yr hyn mae pawb yn ei ddisgwyl gan y BBC.**

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am ein holl werthoedd ar **BBC Gateway**.

# EIN GWERTHOEDD:

- Mae **CYNULLEIDFAOEDD** wrth galon popeth a wnawn
- Rydyn ni'n **UN BBC**, rydyn ni'n cydweithio, yn dysgu ac yn tyfu gyda'n gilydd
- **CREADIGRWYDD** yw curiad calon ein sefydliad
- **YMDDIRIEDAETH** yw sylfaen y BBC – rydyn ni'n annibynnol, yn ddiduedd ac yn onest
- Rydyn ni'n **ATEBOL** ac yn cyflawni gwaith o'r safon uchaf
- Rydyn ni'n **PARCHU** ein gilydd – rydyn ni'n garedig ac rydyn ni'n hyrwyddo cynhwysiant

Wrth edrych ar y safonau rydyn ni'n eu disgwyl yn Ein Cod, mae cysylltiad agos rhwng ein gwerthoedd – sef Ymddiriedaeth, Atebolrwydd a Pharch – a'r safonau gorfodol y mae'n rhaid i bawb gadw atynt. Dyna pam rydyn ni wedi llunio'r canllawiau hyn ar sail y tri gwerth hyn yn benodol.




# YMDDIRIEDAETH

# EIN GWERTHOEDD GOLYGYDDOL

Ymddiriedaeth yw sylfaen y BBC. Rydyn ni’n annibynnol, yn ddiduedd ac yn onest. Mae ein cynulleidfaoedd yn disgwyl i ni ddilyn y safonau uchaf, fel y nodir yn ein Canllawiau Golygyddol. Maen nhw’n berthnasol i’n holl gynnwys, lle bynnag yn y byd mae’n cael ei wneud neu ei dderbyn.

Gan ein bod yn gweithredu er budd y cyhoedd, mae hi’n hollbwysig ein bod yn dryloyw ac yn agored am y canllawiau rydyn ni gyd yn eu dilyn. Mae hyn yn cynnwys ein cyfrifoldebau cyfreithiol fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus, yn ogystal â’r egwyddorion rydyn ni’n eu gosod ar draws ein holl allbwn.

**RHAGOR O WYBODAETH:**
Dylai unrhyw un sy’n gwneud cynnwys ar gyfer y BBC ddefnyddio ein Canllawiau Golygyddol. Maen nhw ar gael **yma**.

# CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Mae mwy a mwy o’n cynulleidfaoedd yn cael eu newyddion a’u hadloniant ar gyfryngau cymdeithasol. Rhaid i ni sicrhau bod ein presenoldeb digidol yn cyd-fynd â’n gwerthoedd golygyddol.

Mae gennym un set o reolau sy’n berthnasol i holl gydweithwyr y BBC, ym mha bynnag adran – P’un a ydych chi’n gweithio ym maes newyddiaduraeth neu ym maes cyllid, rhaid i unrhyw beth rydych chi’n ei bostio ar gyfryngau cymdeithasol, o gyfrif personol neu gyfrif @BBC, ddilyn ein canllawiau Cyfryngau Cymdeithasol ym mhob sefyllfa.

**RHAGOR O WYBODAETH:**
If Os ydych chi’n defnyddio cyfryngau cymdeithasol, bydd angen i chi ddilyn ein Canllawiau Cyfryngau Cymdeithasol sydd i’w gweld **yma**.

# DIOGELU EIN GWYBODAETH, A DATA PERSONOL

Mae angen llawer o wybodaeth, data personol ac offer i wneud yr hyn rydyn ni'n ei wneud, felly mae'n rhaid i ni eu diogelu. Mae hyn yn berthnasol i'n holl systemau a'r data sydd gennym, a gofalu am yr offer rydyn ni'n ei ddefnyddio i wneud ein gwaith. I atal ymdrechion i hacio ein systemau, mae ein timau Diogelu Gwybodaeth a Diogelu Data ar gael bob amser pryd bynnag y bydd angen help arnon ni. Ond ein cyfrifoldeb ni yw cadw gwybodaeth yn ddiogel; mae hyn yn cynnwys diogelu ein cyfrineiriau, bod yn ymwybodol o ble rydyn ni'n agor neu'n cael gafael ar waith cyfrinachol, yn enwedig wrth weithio o bell.

**RHAGOR O WYBODAETH:**
Dylai pawb ddefnyddio'r **Llawlyfr Diogelu Data** a dilyn ein **Canllawiau Seiberddiogelwch** i ddiogelu ein data. Os ydych chi'n defnyddio dyfeisiau digidol, dylech ddilyn y polisi Defnydd Derbyniol sydd i'w weld **yma**.

Ydych chi'n poeni bod rhywun heb awdurdod wedi cael mynediad i'n systemau? Rhowch wybod i **dataprotection.officer@bbc.co.uk**

# LLWGRWOBRWYO A LLYGRU

Dydyn ni ddim yn goddef llwgrwobrwyo na llygredd ar unrhyw ffurf. Mae hyn yn berthnasol i bob un ohonom ni, gan gynnwys pwy rydyn ni'n gweithio gyda nhw, ac yn eu rheoli, ein perthynas â phartneriaid a chyflenwyr. Rydyn ni'n ymfalchïo yn y ffaith ein bod yn ddibynadwy ac yn onest yn ein holl waith ac ni allwn ganiatáu i'r rheini rydyn ni'n gweithio gyda nhw, nac i unrhyw beth rydyn ni'n ei wneud, hybu, cymeradwyo na chymryd rhan mewn llwgrwobr neu unrhyw daliad neu fudd anghyfreithlon arall. Rhaid i ni godi ein llais os gwelwn ni bod rhywbeth o'i le.

**RHAGOR O WYBODAETH:**
Mae'n bwysig eich bod yn deall ac yn dilyn y **Polisi Gwrth-llwgrwobrwyo** a'r **Polisi Treuliau** wrth weithio yn y BBC.

Ffoniwch ein llinell gymorth chwythu'r chwiban yn gyfrinachol ar 0800 890 011. **Gwybodaeth am Chwythu'r Chwiban**

# SICRHAU BUDD Y CYHOEDD

Rydyn ni yma i wasanaethu'r cyhoedd, nid ni'n hunain. Mae hynny'n golygu, pan fyddwn yn y gwaith, ni allwn wneud unrhyw beth sy'n arwain at fudd personol i ni, fel hyrwyddo busnes rydyn ni'n gysylltiedig ag ef, neu wthio ein daliadau gwleidyddol ein hunain. Rydyn ni'n helpu ein holl gydweithwyr i ddeall beth mae gwrthdaro buddiannau'n ei olygu er mwyn diogelu ein safonau o ran bod yn annibynnol ac yn ddiduedd.

**RHAGOR O WYBODAETH:**
Os ydych chi'n ymwneud â chreu unrhyw fath o gynnwys i'r BBC, dilynwch ein **polisi gwrthdaro buddiannau**.

# ATEBOL



# DIOGELU

Mae'n gyfrifoldeb ar bob un ohonom i sicrhau bod y plant a'r oedolion agored i niwed rydyn ni'n gweithio gyda nhw yn ddiogel. Mae hyn yn golygu rhoi eu diogelwch a'u llesiant uwchlaw popeth arall. Rydyn ni'n cefnogi ein holl staff gyda hyfforddiant a chanllawiau helaeth yn y maes hwn er mwyn i bawb fod yn ddiogel, ac rydyn ni gyd yn gweithio mewn diwylliant lle mae safonau gofal uchel ar waith.

**RHAGOR O WYBODAETH:**
Yn ddieithriad, disgwylir i bawb ddilyn a deall y polisïau canlynol:

**Y Polisi Diogelu**
**Cod Ymddygiad Gweithio gyda Phlant**
**Y Polisi Gwrthfwlio ac Aflonyddu**
**Canllawiau Cyfryngau Cymdeithasol a Diogelwch Ar-lein**
**Dod o hyd i'ch cynghorydd "Gweithio gyda Phlant" lleol**

# CADW PAWB YN DDIOGEL

Mae pawb yn gyfrifol am gadw ein pobl, ein systemau, ein data a'n hadeiladau yn ddiogel ac rydyn ni bob tro'n gwisgo ID i helpu ein timau diogelwch i wneud eu gwaith. Yn ein canllawiau Iechyd a Diogelwch, gallwch gael gwybod sut mae cynnal asesiad risg, deall y gweithdrefnau diogelwch ac argyfwng lle bynnag rydych chi'n gweithio a chael gwybod sut mae cael cymorth ychwanegol gan ein Tîm Risg Uchel os byddwch chi angen hynny. Mae ein canllawiau ar weithdrefnau diogelwch yn cael eu diweddaru'n rheolaidd ar gyfer ein holl adeiladau.

**RHAGOR O WYBODAETH:**
Os oes angen i chi ddeall y risgiau diogelwch i'ch gwaith, mae angen i chi edrych ar y **Broses Asesu Risg** a dysgu mwy am ddiogelwch yn y BBC. Chwiliwch am 'asesiadau risg' ar Gateway i ddod o hyd i'r asesiad risg perthnasol ar gyfer y gwaith rydych chi'n ei wneud.

# PRYNU A GWERTHU'N FOESEGOL

Rhaid i unrhyw beth rydyn ni'n ei brynu a'i werthu gyd-fynd â'n gwerthoedd. Dyna pam ein bod yn cadw at y safonau moesol uchaf gyda'n cyflenwyr a phartneriaid eraill.

Byddwn ond yn contractio â phartïon sy'n cyrraedd ein safonau ac yn pasio archwiliadau sy'n ymwneud â gwrth-lwgrwobrwyo, efadu trethi, amodau llafur a gwaith, iechyd a diogelwch, seiberddiogelwch a rheolaeth amgylcheddol.

**RHAGOR O WYBODAETH:**
Os ydych chi'n ymwneud â phrynu neu werthu ar ran y BBC, bydd angen i chi ddilyn y **polisi caffael a masnachu moesegol**.

Gallwch fynegi pryderon yn ddienw, drwy **Navex Global**.


PARCH

## PARCH YN Y GWAITH A CHODI LLAIS

Rydyn ni am i'r BBC fod yn rhywle lle mae pawb yn teimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn cael eu clywed. Rydyn ni'n parchu pobl a'u hawliau; mae hynny'n golygu'r bobl sydd o'n cwmpas ni, y bobl rydyn ni'n gweithio gyda nhw a'r bobl rydyn ni'n siarad drostyn nhw, ble bynnag y maen nhw yn y byd. Mae'n gwneud y BBC yn lle gall pawb siarad yn rhydd a chael yr un cyfleoedd i dyfu ac i ddatblygu. Does dim lle i fwlio nac aflonyddu yn y BBC. Mae'n ddyletswydd ar bob un ohonom i roi gwybod am ymddygiad sy'n is na'r safonau rydyn ni'n eu disgwyl. Byddwn bob amser yn garedig ac yn barchus.

**RHAGOR O WYBODAETH:**
Dylai pawb yn y BBC gadw at **y Polisi Gwrthfwlio ac Aflonyddu**.

Mae gennych chi ddyletswydd i godi'ch llais os ydych chi'n gweld bod rhywbeth o'i le. Gallwch godi unrhyw faterion **yma**.

## TRIN PAWB YN GYFARTAL

As an organisation with a duty to reflect the whole of society, we treat everyone fairly, equally and with respect. We listen and invite new and different perspectives into our work and conversations.

We value our cultural differences and do everything we can to create and nurture a respectful working culture. Hiring and promotion decisions will always be made in line with our fair and transparent recruitment principles, reflecting our commitment to equality and diversity. Everyone is respected.

**RHAGOR O WYBODAETH:**
Er mwyn deall yn well sut rydyn ni'n ceisio cynrychioli ein cynulleidfaoedd yn fewnol, gallwch adolygu ein **Polisi Amrywiaeth a Chynhwysiant**.

Os ydych chi'n cyflogi neu os oes gennych chi ddiddordeb mewn deall polisi recriwtio'r BBC, mae'r polisi ar gael **yma**.

## PARCHU EIN PLANED

Rydyn ni eisiau bod y darlledwr mwyaf cynaliadwy yn y byd, gydag effaith bositif net: gan roi mwy yn ôl i'r blaned nag ydym yn ei gymryd. Er mwyn gwneud hyn, byddwn yn lleihau ein hallyriadau carbon yn sylweddol ac yn gweithio gyda'n cyflenwyr i wneud yr un fath. Mae gan bob un ohonom gyfrifoldeb i chwarae ein rhan i gyflawni ein nodau cynaliadwyedd.

**RHAGOR O WYBODAETH:**
Gallwch hyrwyddo cynaliadwyedd drwy gyfrannu at ein **targedau**.

Dylai pawb sy'n ymwneud â chynyrchiadau gyfeirio at **ganllawiau cynhyrchu cynaliadwy albert**.

## SPENDING WISELY

We make sure everything we spend our licence payers' money on fits with our values and delivers the very best for them in return. We manage all our finances with care and attention, following strict financial controls. We expect our suppliers and partners to share our high standards around managing money.

**RHAGOR O WYBODAETH:**
I gael gwybod sut rydyn ni'n disgwyl i chi gyfrannu at 'wario'n ddoeth, edrychwch ar y **Strategaeth Caffael Cyfrifol** a'r **Polisi Treuliau**.

## BOD YN DEG

Er ein bod yn cael arian cyhoeddus ar ffurf Ffi'r Drwydded, mae gennym ochr fasnachol hefyd, sy'n cystadlu â chwmnïau preifat ar draws y byd. Rhaid i ni sicrhau nad ydyn ni byth yn defnyddio ein statws fel darlledwr cyhoeddus i gael mantais annheg yn y farchnad. Mae gennym ganllawiau rheoleiddio ar waith i helpu timau ar draws ochr gyhoeddus a masnachol y BBC i wneud yn siŵr ein bod yn dilyn y rheolau Masnachu Teg.

**RHAGOR O WYBODAETH:**
Mae'n bwysig eich bod yn dilyn y rheolau Masnachu Teg, ac mae popeth y mae angen i chi ei wybod wedi'i nodi **yma**.

# YDYCH CHI ANGEN CYMORTH?

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am Ein Cod, siaradwch â'ch arweinydd tîm neu'ch archebwr. Os nad yw hynny'n teimlo fel y peth iawn i'w wneud am unrhyw reswm, cysylltwch â'ch HRBP lleol i gael help.

Os ydych chi'n gallu defnyddio Rhwydwaith y BBC, mae'n cynnwys llawer o ddolenni defnyddiol sy'n rhoi rhagor o wybodaeth am bynciau penodol os oes angen:

- Mae ein dogfennau polisi ar gyfer y BBC yn y Deyrnas Unedig i'w gweld **yma**
- Os ydych yn gweithio i BBC Studios, bydd y dogfennau polisi hynny ar gael **yma**
- Gwybodaeth am **fynegi pryderon** yn y BBC
- Manylion am **weithio gyda phlant**
- Gwybodaeth am **werthoedd y BBC**
- Ein **canllawiau golygyddol**
- Ewch i **BBC Academy** i gael rhagor o wybodaeth am hyfforddiant